PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 1 MAI 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Jenkins, Lent a/ac Molik |

83 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Carter a'r Cynghorydd Goddard.

84 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd McGarry fuddiant personol yn Eitem 6 gan ei bod yn aelod o grŵp sy'n noddi'r gwaith o adsefydlu teulu o ffoaduriaid.

Datganodd y Cynghorydd Len fuddiant personol yn Eitemau 5 gan fod ganddi fab ag anableddau dysgu. Hefyd, datganodd y Cynghorydd Lent fuddiant personol yn Eitem 6 gan ei bod yn aelod o grŵp sy'n noddi'r gwaith o adsefydlu teulu o ffoaduriaid.

85 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Ebrill 2019 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

86 : STRATEGAETH COMISIYNU AR Y CYD AR GYFER OEDOLION AG ANABLEDD DYSGU (MEWNBWN CYNGOR CAERDYDD)

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant); Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol); Emma Mullinder (Rheolwr Gweithredol Anableddau Dysgu) a Denise Moriarty (Prif Swyddog Cynllunio Strategol) i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar fewnbwn Cyngor Caerdydd yn y Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd i Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu. Caiff yr eitem hon ei hystyried gan y Cabinet ar 16 Mai. Hefyd dywedodd wrth yr Aelodau y byddai'r eitem hon ei hystyried mewn tri rhan – yn gyntaf, byddai swyddogion ac Aelodau Cabinet yn rhoi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor; yna gelwid ar dystion o Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro a Phobl yn Gyntaf Caerdydd i roi eu sylwadau i'r Pwyllgor ar y strategaeth ac ar ôl hynny byddai sesiwn holi ac ateb gyda'r Aelod Cabinet a swyddogion.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd hi yr oedd hi'n falch o allu cyflwyno strategaeth mor wych i'r Pwyllgor.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar y Strategaeth Gomisiynu ar y Cyd i Oedolion sydd ag Anableddau Dysgu, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd tystion o Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro a Phobl yn Gyntaf Caerdydd i wneud eu datganiadau.

Dywedodd Joe Blackley ei bod yn bwysig iawn bod pobl sydd ag anableddau dysgu â rhan fwy yn y gwaith o ddylunio strategaethau a gobeithio'n cael eu penodi i wneud strategaethau ar gael i'r cyhoedd.

Dywedodd John Cushen fod y Ffederasiwn Rhieni wedi bod yn rhan o'r ymgynghori i ddatblygu'r strategaeth hon ers llawer o flynyddoedd; roedd yn falch o weld cymaint o flaenoriaethau sy'n adlewyrchu'r materion y tynnir sylw'r Ffederasiwn Rhieni atynt yn aml.  Ychwanegodd ei bod yn ddymunol gweld awdurdodau lleol yn cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd a dim ond yn gadarnhaol y gallai cydweithio fod.  Credodd fod y manylion yn y strategaeth yn uchelgeisiol ac er y mae'n cytuno ag hi'n gyfan gwbl, y prawf fyddai cyflawni'r holl strategaeth.

Esboniodd Joanna James ei bod n gweithio yn y swyddfa Projectau ar gyfer y Project Dod Ynghyd ym Mhobl yn Gyntaf Caerdydd; mae'r project yn mynd allan i'r gymuned, yn cynnwys pobl, yn chwalu arwahaniad ac yn defnyddio cyfleusterau cymunedol.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau;

Gofynnodd yr Aelodau am Bobl yn Gyntaf Caerdydd, a'r wybodaeth wedi'i choladu i lywio'r strategaeth ar wella gwasanaethau - beth oedd prif ganfyddiadau'r gwaith hwn ac a oeddent yn hapus yr aethpwyd i'r afael â'r canfyddiadau hyn. Esboniodd Joe Blackley fod y wybodaeth wedi'i choladu gan eu haelodau ac roedd yn glir eu bod am gael mynediad at wasanaethau yn eu cymuned a pheidio ag angen teithio ar draws y Ddinas; dyma'r hyn a ddechreuodd y Project Dod Ynghyd.

Gofynnodd yr Aelodau am brif feysydd gwella ar gyfer iechyd a llesiant pobl sydd ag Anableddau Dysgu a hefyd eu teuluoedd ac a yw hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau wedi'u trafod yn y strategaeth neu a oes unrhyw anghysondebau.  Dywedodd John Cushen ei fod yn trafod y blaenoriaethau y tynnwyd sylw atynt yn y gorffennol ac yn mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n codi tro ar ôl tro; mae'n brydlon ac yn hygyrch ac yn rhoi gwybodaeth ar bontio sydd o gymorth mawr.

Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r Aelodau'n teimlo am y broses gynllunio gofal ac a ydynt yn credu ei bod yn bodloni eu hanghenion.  Dywedodd John Cushen eu bod yn gweld canlyniadau cymysg; maent yn dueddol o bwysleisio pwysigrwydd paratoi cyn asesiadau, i gydweithio i gael canlyniadau a'r hyn sy'n bwysig yn lle gorfod brwydro am bethau.

Gofynnodd yr Aelodau a yw rhieni'n cytuno'n gyffredinol â'r cynlluniau gofal. Dywedodd John Cushen ei bod yn anodd siarad ar ran pob rhiant a'r tuedd yw cysylltu â'r ffederasiwn Rhieni dim ond pan fo materion megis cael eich arwain ar hyd llwybr na ydych yn gwbl hapus ag ef.  Mae'r Ffederasiwn Rhieni'n ceisio sicrhau bod rhieni'n gwybod y pethau y mae'n iawn gofyn amdanynt a'r hyn sydd ar gael iddynt, ac i baratoi am waith arwain tair blynedd i asesiad pontio.  Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r strategaeth yn mynd i'r afael â hyn ac esboniodd John Cushen y byddai o gymorth yn sicr gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael ac mae'n rhaid gwthio a phwysleisio hyn lle bynnag y mae'n bosibl.

Gofynnodd yr Aelodau sut maent yn rhagweld y strategaeth yn cael ei gweithredu ac a ddylai Dangosyddion Perfformiad Allweddol gael eu cynnwys yn y dyfodol. Dywedodd John Cushen yr hoffen nhw weld pethau'n cael eu cyflawni, mae'r

strategaeth yn cynnig rhywbeth i berfformio yn ei erbyn; mae prif chwaraewyr yn rhan o'r cydweithio ac mae'n fan cychwyn da. O ran sut caiff ei monitro yn y dyfodol ac ychwanegodd mai dyna fyddai'r prawf o ran a yw'n gweithio neu ddim.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r Strategaeth hon yn teimlo fel dull newydd gyda mwy o egni. Dywedodd John Cushen ei bod yn ymddangos ei bod yn fwy ar y cyd, er nad yw rhai dyheadau'n newydd, mae rhai'n llawer uwch y dyddiau hyn ac yn haws eu cyflawni; bydd adnoddau a chyllid yn her ac roedd angen lledaenu cymorth yn deg a ddim yn ei roi i'r rheiny sy'n lleisio eu barn fwyaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet a Swyddogion i ddychwelyd i'r bwrdd a gwahoddodd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau;

Credodd yr Aelodau fod y strategaethol yn addawol iawn a gofynnodd beth sy'n digwydd ar hyn o bryd a beth sydd angen ei wella. Esboniodd swyddogion fod llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd, ond roedd newid i ymarfer ar sail cryfderau oedd yn cwmpasu'r egwyddor yn fwy trwy gydweithio, yr hyn sy'n bwysig i bobl a'u gofalwr ac adeiladu ar hynny, yn cael gwybod am yr hyn sydd ar gael yn y gymuned leol, magu annibyniaeth a hefyd sut mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet eu bod yn gweithio gyda Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a Phobl yn Gyntaf Caerdydd yn y gwaith o ddylunio'r camau nesaf a'r cynllun gweithredu.

Gofynnodd yr Aelodau am yr amserlen ar gyfer y strategaeth a dywedwyd wrthynt y byddai'n cael ei gweithredu eleni.

Credodd yr Aelodau bod y strategaeth wedi'i chyflwyno'n dda ac yn hygyrch, ond nodon nhw fod Adran 9 ar weithredu'n gryno iawn a gofynnon nhw a oedd cwmpas i adeiladu ar hyn ac integreiddio rhai cynlluniau gweithredu yn y strategaeth ei hun. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Strategaeth yn amlinellu'r Prif Egwyddorion ac roedd yn waith ar fynd; mae angen i gynlluniau gweithredu fod yn glir o ran mesur; mae angen i gynlluniau gweithredu gael eu cyd-gynhyrchu. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr eu bod eisoes yn gweithio ar flaenoriaethau y mae angen cytuno arnynt trwy bartneriaeth ar y cyd.

Derbyniodd yr Aelodau fod y Strategaeth yn un lefel uchel, ond credon nhw nad yw'n trafod unrhyw fanylion. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Strategaeth yn disgrifio'r weledigaeth a bod y Cynlluniau Gweithredu'n rhoi'r wybodaeth fanwl, byddant yn ffurfio rhan o'r Strategaeth wrth iddi gael ei datblygu dros y flwyddyn, mae'r Strategaeth yn pennu'r cyfeiriad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Argymhellion yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen a gofynnon nhw a yw'r geiriau wedi'u newid o ganlyniad. Dywedodd swyddogion iddynt ystyried pob argymhelliad; edrychon nhw ar bob argymhelliad gan newid y geiriau dim ond 'lle'r oedd yn briodol'. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn adroddiad drafft y Cabinet, ac y cafodd y geiriau eu cytuno yng nghyfarfod briffio'r Cabinet.

Gofynnodd yr Aelodau am ystyr 'priodol' a dywedwyd wrthynt ei fod yn golygu pan fo person wedi'i asesu a phan fo'r camau nesaf wedi'u trafod; mae'r geiriau bellach yn darllen 'y llwybr cywir eu bod am ei ddilyn'.

Dywedodd yr Aelodau fod dewis yn bwysig ond credon nhw fod y Strategaeth yn dal i ddarllen fel y mae'r dewisiadau a ddarperir yn lleol yn well pan all rhai pobl ddewis i

fynd i'r tu allan i Gaerdydd.  Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai dull ar sail cryfderau o gymorth yma, cael sgyrsiau'n ddigon cynnar am lwybrau a deall dewisiadau fel y mae dewis go iawn i bobl.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml y byddai’r Strategaeth yn cael ei hadolygu/ei monitro a dywedwyd wrthynt fod y grŵp cynllunio Anabledd Dysgu’n cyfarfod bob tri mis ac y bydd ganddynt rôl fonitro; byddai ymgynghoriadau ehangach yn flynyddol i weld cynnydd.

Nododd yr Aelodau fod y gwariant yng Nghaerdydd yn fwy y person nag yn y Fro a gofynnon nhw am y rhesymau y tu ôl i hyn.  Esboniodd y swyddogion ei bod yn anodd rhannu'r gyllideb, fe'i rhannwyd gan nifer o bobl ond roedd anghenion gwahanol iawn yn y ddau awdurdod.  Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai adnoddau’n cael eu rhannu a dywedwyd wrthynt y byddai dadansoddiad manwl i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy’n gost-effeithiol.

Gofynnodd yr Aelodau pam ei bod yn ymddangos bod yr ystadegyn ar gyfer gofal seibiant yn isel ac esboniwyd ei fod yn adlewyrchu gofal seibiant contract bloc ond byddai elfennau o ofal seibiant yn y Gwasanaethau Dydd, Gofal Cartref/Gofal Preswyl ac ati.; ni rennir y ffigwr i'r lefelau hyn.  Roedd yr Aelodau am weld dadansoddiad o hyn i weld faint o bobl sy'n manteisio ar ofal seibiant.

CYTUNWYD:  Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 87 : CYNLLUN ADSEFYDLU POBL AGORED I NIWED

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Susan Elsmore (Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol Iechyd a Llesiant); Tom Dodsworth, y Cydlynydd Adsefydlu Rhanbarthol a Kate Hustler, y Rheolwr Gweithredol i’r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar y Cynllun Adsefydlu Pobl Agored i Niwed. Byddai’r eitem hon yn cael ei hystyried gan y Cabinet ar 16 Mai.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd hi ei bod yn falch o gyflwyno hyn gerbron y pwyllgor; yn 2015 penderfynwyd yn gyflym i ymuno â'r cynllun adsefydlu, penderfynwyd hyn â balchder ac roedd yn angenrheidiol. Roedd bellach yn angenrheidiol cymeradwyo trefniadau gan dim ond tan diwedd y mis roedd y cynllun cyfredol wedi’i gymeradwyo ac roedd angen ei ymestyn.  Talwyd teyrnged i Dai Taf fel y darparwr cyflenwi oedd wedi gwneud gwaith gwych.  Hefyd talwyd teyrnged i waith cydweithwyr a'r grŵp arwain rheolaidd wedi'i wneud yn y Fro.

Amlinellodd y swyddogion prif bwyntiau’r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau am y Sector Rhent Preifat, sut mae eiddo’n cael eu nodi ac a yw unrhyw asesiadau risg yn cael eu gwneud yn y cymunedau perthnasol. Esboniodd y swyddogion bod dwy system wahanol yng Nghaerdydd a'r Fro.  Mae Caerdydd yn mynd allan i’r farchnad a Cadwyn yw prif ddarparwr llety.  Mae ganddynt adran osodiadau ac eiddo i’w prydlesi gan landlordiaid am 3 blynedd, mae Caerdydd yn defnyddio'r hyn oedd yn eiddo llety dros dro ac wedyn yn ôl-lenwi'r rhain.  Wrth nodi eiddo, mae swyddogion yn edrych ar eiddo gwag, edrych ar

gydlyniad cymunedol, gweithio gyda'r heddlu ac ati. Maent am gael integreiddio cadarnhaol i gymunedau. Nid yw rhai ardaloedd yn cael eu targedu, yn lle maent yn edrych ar yr hyn sydd ar gael yn y cymunedau. Mae eiddo'n cael eu sgrinio ac maent hefyd yn edrych ar leoedd ysgol ac ati.

Gofynnodd yr Aelodau a yw'r cynllun yn ychwanegu pwysau ar system sydd eisoes yn llawn. Ni chytunodd yr Aelodau Cabinet a dywedodd mai'r hyn y maent wedi'i ganfod yw bod y gofal a'r gwaith o ran dod o hyd i eiddo, cydlynu ysgolion, gofal ac ati wedi bod yn rhagorol. Maent yn gweithio'n chwarterol gyda phartneriaid ac mae ganddynt ddyletswydd foesol i groesawu ffoaduriaid. Ychwanegodd ei bod yn bwysig dathlu'r hyn rydym yn ei wneud er gwaethaf y cyfyngiadau roedd niferoedd bach rhesymol a dylid eu croesawu. Ychwanegodd y swyddogion nad yw'r tai wedi'u defnyddio i ailgartrefu teuluoedd o ffoaduriaid wedi cael effaith ar yr hyn a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cysgwyr ar y stryd, pobl ddigartref neu bobl ar y rhestr aros gyfredol gan mai tai'r sector rhent preifat ydynt, nid stoc cymdeithasau tai.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw bryderon am y sector rhent preifat yn lleihau a landlordiaid yn gwerthu eiddo. Nododd yr Aelod Cabinet y projectau noddi cymunedau amrywiol a bod y cymunedau'n eithriadol wydn. Ychwanegodd y swyddogion fod cymdeithas tai wedi cael cynnig o eiddo trwy gynllun gosodiadau'n ddiweddar, byddai'r eiddo hyn wedi'u gwerthu fel arall ond mae rhai landlordiaid yn hapus i gymryd rhan yn y cynllun.

Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar y cyllid a dywedwyd wrthynt fod y teuluoedd yn cael eu hariannu am y flwyddyn gyntaf ac wedyn am bum mlynedd ar ôl sefydlu gyda chyllid wedi'i wasgaru, felly mae pob contract yn para am chwe blynedd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyllid y Swyddfa Gartref yn bendant a dywedodd y swyddogion fod y cyllid wedi'i ymrwymo i bum mlynedd ar ôl sefydlu.

Gofynnodd yr Aelodau a oes unrhyw risgiau ac os felly sut maent yn cael eu lliniaru. Dywedodd y swyddogion eu bod wedi dysgu llawer o wersi a thrwy grwpiau arwain rheolaidd maent yn gallu ymateb yn gyflym i dueddiadau megis disgwyliadau o'r hyn y gellir ei gyflawni.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 88 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: bod yr Adroddiadau a'r Atodiadau'n gyfrinachol ac ni ddylent gael eu cyhoeddi yn rhinwedd paragraffau 14 a 21 Atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972. Caiff y cyhoedd ei wahardd o'r cyfarfod pan gaiff yr eitem hon ei hystyried yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

## 89 : STRATEGAETH ADEILADU TAI'R CYNGOR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne, yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau a David Jaques, y Rheolwr Datblygu Tai, i'r cyfarfod.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar Strategaeth Adeiladu Tai’r Cyngor. Byddai’r eitem hon yn cael ei hystyried gan y Cabinet ar 16 Mai. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod Atodiad E yr eitem hon yn gyfrinachol felly byddid rhannu'r gwaith o ystyried eitem yn sesiynau agored a sesiynau caeedig.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad a dywedodd hi fod yr adroddiad wedi’i seilio ar y cyflwyniad i’r Pwyllgor y mis diwethaf.

Amlinellodd y swyddogion prif bwyntiau’r adroddiad ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar wybodaeth yn y parth cyhoeddus. Atgoffwyd yr Aelodau mai’r wybodaeth gyhoeddus oedd Adroddiad ac Atodiadau'r Cabinet; ac eithrio Atodiad E.

Gofynnodd yr Aelodau lle mae Safon Ddylunio Caerdydd wedi’i hychwanegu a dywedwyd wrthynt fod mwy o fanylion ym mharagraffau 24 a 25. Fodd bynnag esboniwyd mai safon 2015 oedd angen ei diweddaru wedyn byddai modd dod yn ôl at y pwyllgor gyda throsolwg.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai’r Cabinet yn debygol o gymeradwyo hyn, o ystyried y risgiau ariannol megis grant lwfans atgyweiriadau mawr ansicrwydd, cap rhent a benthyca sylweddol gan y Cyfrif Refeniw Tai. Credodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Cabinet yn ei chymeradwyo; hefyd ychwanegodd iddi gwrdd â’r Gweinidog a dangos iddi gartrefi newydd y Cyngor, mae hi'n edrych ar wariant yn yr adran tai yn ogystal â chanlyniadau a gwerth am arian; roedd wedi sôn am y lefelau rhent yng Nghymru o'u cymharu â Lloegr a bod Caerdydd yn bodloni safonau SATC. Teimlodd yr Aelod Cabinet yn hyderus fod y Gweinidog yn hapus ac y byddai canlyniad dan yn y diwedd.

Gofynnodd yr Aeloda am fwy o wybodaeth am Gynllunio a dywedwyd wrthynt y byddai mwy o wybodaeth am gyflawni a’r amserlen drosglwyddo ei hychwanegu yn Atodiadau Adroddiad y Cabinet a gellid eu cylchredeg i Aelodau’r Pwyllgor; byddant yn dangos yr hyn a gyflawnir a phryd. Pwysleisiwyd bod bob amser risg y gallai cynllunio oedi’r broses ac roedd risgiau eraill megis Brexit, Costau, Cap Rhent ac ati. Credodd yr Aelod Cabinet mai’r risg mwyaf o’r risgiau hyn oedd y cap rhent a pheidio â gallu cyflawni'r project.

Gofynnodd yr Aelodau a yw’r targed o 2000 o gartrefi a’r amserlen yn rhy uchelgeisiol. Dywedodd y swyddogion y byddent yn cylchredeg yr amserlen i’r Aelodau. Dywedodd yr Aelod Cabinet, pe bai’r unedau wedi’u hadeiladu oddi ar y safle yn Croft Street yn effeithiol gallai hyn symud yr amserlen yn ei blaen.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai unedau wedi’u hadeiladu oddi ar y safle ar wahân yn cael eu hystyried. Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd unrhyw wrthwynebiadau a gallai fod angen pe bai angen am gartrefi wedi’u haddasu’n arbenigol ond o ran yr hyn eu bod am ei gyflawni a bod yr ansawdd yn rhagorol nid ydynt yn credu y byddai pobl yn poeni am y tai teras. Mae tai ar wahân yn ddrud a gallent fod yn ymrwymiadau ariannol; byddai cartrefi teras mwy â 3 a 4 ystafell wely.

Gofynnodd yr Aelodau am y gwahaniaeth mewn costau unedau wedi'u hadeiladu oddi ar y safle a chartrefi arferol. Esboniodd y swyddogion fod y gost tua'r un faint, y

mater ynghylch arbed amser sy'n bwysig; mae unedau wedi'u hadeiladu oddi ar y safle'n cymryd 20 wythnos yn lle 20 mis.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau ar Atodiad E oedd gyfrinachol ond ni chafwyd unrhyw rai.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

90 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn nodi crynodeb busnes y Pwyllgor ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys diweddariad ar Ohebiaeth; Rhaglen Waith wedi'i diweddaru; Grwpiau Ymholiadau/Gorchwyl a Gorffen a Phanel Perfformiad Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y cafwyd ymateb i lythyr y Cadeirydd ers dosbarthu'r pecyn agenda. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod yr holl ohebiaeth wedi'i gyhoeddi ar y wefan.

Trafododd yr Aelodau y flaen-raglen waith ar gyfer y cyfarfod ym mis Mehefin. Credodd y dylai'r eitemau; Briff Cymdeithas Tai; Adroddiad Blynyddol a Pherfformiad Chwarter 4 fod ar agenda Pwyllgor mis Mehefin.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod eitem ar y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn cael ei chyflwyno i'r grŵp Craffu Amgylcheddol y mis nesaf; roedd rhai meysydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion felly byddai'r Swyddog Craffu'n cylchredeg y papurau a phe bai unrhyw gwestiynau gellid eu hanfon at y Cynghorydd Patel a fyddai'n gofyn iddynt ar ran y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai Adroddiad Blynyddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc/Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar y Cyd ar ddiwedd mis Mehefin, byddai'r Aelodau'n cael diweddariad ar y dyddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod angen strwythur cadarn ar gyfer Gorchwyl a Gorffen ac amcanion wedi'u penodi ar gyfer pob cyfarfod. Byddai'r cyfarfod nesaf ar 16 Mai 2019.
Roedd yr Aelodau am ddiolch i'r Cynghorydd McGarry am ei 4 blynedd o waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

91 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

92 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Disgwylir i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Cymunedau a Gwasanaethau Oedolion ddigwydd ddydd Mercher 5 Mehefin am 4.30pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Sir.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm